



cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

DATGANIAD I'R WASG
Dyddiad: 29 Gorffennaf 2010



Lansio cynllun cyfranddalwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Tai Ceredigion

Cynhaliodd Tai Ceredigion, y gymdeithas dai ddi-elw sydd wedi'i sefydlu yn yr ardal, ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf erioed ddoe (Dydd Mercher 28 Gorffennaf), lle lansiodd y gymdeithas ei chynllun cyfranddalwyr.

Mae'r cynllun yn gwahodd unrhyw denant neu lesddeiliad i fod yn un o gyfranddalwyr y sefydliad am £1. Bydd y cam hwn yn sicrhau bod gan denantiaid a lesddeiliaid fwy o gyfle i ddweud eu dweud am y modd y caiff eu cartrefi eu rheoli a'u gwella yn y dyfodol.

Bydd gan bob cyfranddaliwr un gyfran, a bydd un gyfran yn gyfystyr ag un bleidlais. Bydd pob cyfran yn werth un bunt, ac nid yw'n rhoi hawl i log, rhandal na bonws. Bydd y cyfranddalwyr hefyd yn cael gwybod am bob Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a Chyfarfod Cyffredinol Arbennig, ac ynghyd â chyfranddalwyr eraill byddant yn gallu galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig.

Meddai Ysgrifennydd Cwmni Tai Ceredigion, Katrina Michael: "Roeddem wrth ein bodd o dderbyn cyfranddalwyr newydd yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf erioed, a chyflwyno eu tystysgrifau iddynt. Rydym yn awyddus iawn i gynifer ag sy'n bosibl o bobl fod yn gyfranddalwyr, a bod yn gydberchnogion y cwmni a'i agenda felly. Mae'n bwysig i ni bod tenantiaid a lesddeiliaid yn cymryd rhan yn weithredol yn ein cynlluniau a'n bwriadau ar gyfer y dyfodol."

Mae'r gymdeithas dai wedi bod yn brysur iawn yn ystod ei chwe mis cyntaf o gyflawni busnes, ac ymhlith yr uchafbwyntiau y mae sefydlu'r bwrdd, sefydlu contractau lleol, dechrau gwella cartrefi, a sicrhau grantiau ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni.

Mae Tai Ceredigion wedi ymrwymo i wireddu ei haddewidion, sy'n cynnwys gwario £40 miliwn i sicrhau bod bron i 2,300 o gartrefi'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, a bydd cynllun busnes 30 mlynedd y gymdeithas yn gweld buddsoddiad o £136 miliwn i gynnal a chadw'r cartrefi hynny.

Mae ffurflenni cais i fod yn aelod-gyfranddaliwr, ynghyd â chyfarwyddiadau llawn ynghylch sut mae dod yn gyfranddaliwr, ar gael i'w lawrlwytho ar www.taicedigion.org.uk, neu mae croeso i chi gysylltu ag Elspeth Edwards ar 01570 424 362 i gael rhagor o wybodaeth.

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Tai Ceredigion drwy gysylltu â Kate Williams, Rheolwr Cyfrif Cysylltiadau Cyhoeddus ar **07786 550054 / 01970 636418** neu kate@fbagroup.co.uk.

Y CYFAN Y MAE ANGEN I CHI EI WYBOD AM FOD YN

UN O GYFRANDDALWYR TAI CEREDIGION

- C: Pwy all fod yn gyfranddaliwr?**
- A:** Gall tenant, unigolyn annibynnol neu unigolyn o'r awdurdod lleol, a enwebwyd gan Gyngor Sir Ceredigion, fod yn gyfranddaliwr. Yn achos cyd-denantiaid, gall y ddau denant fod yn gyfranddalwyr.
- C: A allaf fod yn gyfranddaliwr os wyf yn lesddeiliad?**

A: Gall lesddeiliaid fod yn denant-gyfranddalwyr, ar yr amod nad oes mwy na 10% o'r tenant-gyfranddalwyr yn lesddeiliaid.

C: Pwy na all fod yn gyfranddaliwr?

A: Ni allwch fod yn gyfranddaliwr os ydych dan 18 oed, os cawsoch eich diarddel fel cyfranddaliwr, os ydych yn aelod o staff Tai Ceredigion neu'n unigolyn o'r awdurdod lleol (oni cawsoch eich enwebu gan Gyngor Sir Ceredigion).

C: Sawl cyfran gallaf i eu cael?

A: Gall pob cyfranddaliwr gael un gyfran, a bydd un gyfran yn gyfystyr ag un bleidlais. Mae pob cyfran yn werth un bunt, ac nid yw'n rhoi hawl i log, rhandal na bonws.

C: Sut mae dod yn gyfranddaliwr?

A: Rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig trwy lenwi'r ffurflen gais a thalu £1 (caiff y £1 ei dychwelyd os na chaiff eich cais ei gymeradwyo). Os ydych yn unigolyn annibynnol, rhaid i chi nodi eich rhesymau dros wneud cais i fod yn gyfranddaliwr a nodi'r hyn sy'n eich gwneud yn gymwys i fod yn un o gyfranddalwyr Tai Ceredigion. Bydd Bwrdd Tai Ceredigion yn ystyried pob cais. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd eich enw'n cael ei gynnwys ar Gofrestr y Gymdeithas o Gyfranddalwyr, a byddwch yn cael Tystysgrif Cyfranddaliad.

C: Beth mae bod yn gyfranddaliwr yn ei olygu?

A: Mae bod yn gyfranddaliwr yn golygu y byddwch yn cael gwybod am bob Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a Chyfarfod Cyffredinol Arbennig. Bydd gennych hawl i bleidleisio ym mhob cyfarfod cyffredinol. At hynny, gallwch chi (ynghyd â chyfranddalwyr eraill) alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig.

1. Tai Ceredigion yw'r gymdeithas dai ddi-elw newydd sydd wedi'i sefydlu yn yr ardal. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r cyngor, a phartneriaid eraill sy'n gweithio yn yr ardal, i helpu i ddiwallu anghenion tenantiaid, preswylwyr a lesddeiliaid Ceredigion.
2. Mae gan Tai Ceredigion 2229 o gartrefi rhent a 140 eiddo ar brydles. Yn flaenorol, Cyngor Ceredigion oedd yn berchen ar y cartrefi hyn ac yn eu cynnal a'u cadw. Mae angen cynnal a chadw'r holl gartrefi hyn a sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.
3. Mae cyllid newydd gan Lywodraeth y Cynulliad a buddsoddiad gan Fanc Barclays yn golygu bod rhyw £136 miliwn ar gael ar gyfer cynllun busnes 30 mlynedd Tai Ceredigion. Yn flaenorol, roedd cyfyngiadau llym ar allu cynghorau i fenthycu arian ar gyfer tai, a chât cyllidebau eu neilltuo.
4. Mae gan Tai Ceredigion statws elusenol, sy'n sicrhau y gellir ailfuddsoddi mwy o incwm mewn gwella cartrefi tenantiaid a rhedeg y gwasanaeth tai.
5. Cafodd y trosglwyddiad ei gymeradwyo gan fwyafrif y tenantiaid a bleidleisiodd, ac mae'n golygu bod llawer mwy o gyllid ar gael yn awr ar gyfer gwaith cynnal a chadw arfaethedig, gwelliannau i eiddo, a gwaith codi tai newydd ar gyfer pobl leol yn y tymor hwy.

6. Mae Tai Ceredigion yn bwriadu gwario hyd at £40 miliwn ar welliannau yn ystod y pum mlynedd nesaf, ac mae wedi dechrau ymgynghori â thenantiaid a lesddeiliaid ynghylch sut i gyflwyno'r rhaglen hon.